Cofion

Anfonwn ein cofion at Eurgain Pierce (Llannefydd) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Merfyn Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Clatterbridge. Da yw cael adrodd fod Dwynwen Davies (Nantglyn) wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn yn dilyn treulio rhai wythnosau yn Ysbyty Glan Clwyd. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn iddi, ac i Gwion Ll. Evans (Llansannan) gafodd lawdriniaeth yr wythnos ddiwethaf. Cyflwynwn bawb sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau i ofal yr Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwylio dros eu hanwyliaid yr un modd.

Apêl Argyfwng y Dwyrain Canol

Fel y gwyddoch, mae miloedd o bobl yn Gaza ac Israel a'r rhanbarth ehangach yn profi colled, trawma ac angen aruthrol ar hyn o bryd. Mae miloedd o bobl wedi cael eu lladd. Mae bywydau'n cael eu dinistrio. Mae teuluoedd yn gwahanu ac mae dros filiwn o bobl wedi cael eu dadleoli. Mae ysbytai ac ysgolion – llefydd diogel fel arfer – wedi cael eu dinistrio gan fomiau. Nid oes gan bobl unman i fynd, ac mae taer angen am fwyd, dŵr a thanwydd. Mae *Tearfund* yn gweithio gydag eglwysi a phartneriaid lleol i gefnogi eu paratoadau a'u helpu i ymateb i anghenion pobl ar draws y rhanbarth. Felly, os gallwch, plîs cyfrannwch heddiw i ddangos cariad Duw tuag at bobl sydd mewn angen dybryd. Bydd eich cyfraniad yn helpu eglwysi lleol i ddarparu cymorth hanfodol i'r rhai y mae'r argyfwng dyngarol yn effeithio arnynt. Os dymunwch gyfrannu trwy'r Ofalaeth, gofynnwn i chi i wneud hynny ar-lein os yw hynny'n bosib (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu gallwch anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Dwyrain Canol' wedi ei ysgrifennu ar y cefn, **erbyn diwedd Tachwedd,** os gwelwch yn dda**.** Diolch am eich cefnogaeth.

Canu Carolau

Rydan ni'n gobeithio gallu trefnu i fynd i ganu carolau i rai o'r cartrefi gofal eto eleni. Os oes gennych ddiddordeb, wnewch chi gysylltu hefo Mair **erbyn dydd Llun, Rhagfyr 4ydd**, os gwelwch yn dda? Byddai'n dda gwybod pwy sydd ar gael a phryd (boed hynny yn ystod y dydd a/neu fin nos) cyn i ni wneud trefniadau pendant.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (6ed), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26 Tachwedd 2023

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Meistr

Tydi methiant ddim yn beth hawdd dygymod ag o! Bydda' i'n gorfod cydnabod methu datrys problemau cyfrifiadurol yn aml. Rwyf wedi dysgu bellach mai gwell ydi cydnabod fy anallu i ddelio â rhai problemau a throi at un sy'n feistr yn y maes, yn lle ymdrechu fy hun a gwneud y sefyllfa yn waeth. Mae'n anodd cyfaddef na tydi ein gorau weithiau ddim yn ddigon da. Bydda i'n cyfarfod pobl weithiau sy'n teimlo eu bod wedi methu, ond yn fwy na hynny, yn teimlo eu bod yn fethiant. Gall problemau yn y gwaith greu'r ymdeimlad yma o fethiant, neu dro arall broblemau ariannol neu broblemau efo'u priodas neu deulu. Mae yna lawer o bethau all greu digalondid a'r hen deimlad yma o fethiant ynom.

Cawn hanes yn y pumed bennod o Efengyl Luc am griw o bysgotwyr profiadol yn golchi eu rhwydau ar ddiwedd diwrnod gwaith a hwythau heb ddal yr un pysgodyn. Ond daeth Iesu a dweud wrth Simon a'i ffrindiau am fynd allan i'r dŵr dwfn a bwrw rhwyd i'r dŵr. "Meistr," meddai Simon wrtho, "buon ni'n gweithio'n galed drwy'r nos neithiwr heb ddal dim byd! Ond am mai ti sy'n gofyn, gollynga i y rhwydi." Ac yn wir, mi ddalion nhw mwy na llond y rhwyd o bysgod. Canlyniad gwrando ar y meistr oedd dal helfa fawr o bysgod. Dan gyfarwyddyd y Meistr cafwyd llwyddiant eithriadol a llwyr anghofiwyd siom y dydd. Mae galw Iesu yn feistr ac ymddiried ynddo yn dod â bendith i'n bywyd ac i fywyd y rhai o'n cwmpas fel y digwyddodd yn hanes Simon. Mae galw Iesu yn feistr yn rhoi awdurdod iddo drosom. Mae yn feistr pob sefyllfa. Pan ddaw o i ganol ein sefyllfa, bydd ofnau ac ymdeimlad o fethiant yn diflannu. Hyfrydwch y ffydd Gristnogol ydi cael dod at Iesu a dweud wrtho, 'Meistr, cymer reolaeth o'm bywyd.' Dywedwn efo'r emynydd William Williams o Bantycelyn:

"Rwy'n dewis Iesu a'i farwol glwy'
Yn Frawd a Phriod imi mwy;
Ef yn Arweinydd , ef yn Ben
I'm dwyn o'r byd i'r nefoedd wen."

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Tachwedd 26ain

Bore Bro Aled

Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth

yng Nghefn Meiriadog am 10:30

o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris.

Dydd Mawrth, Tachwedd 28ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Iau, Tachwedd 30ain

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?

Dydd Gwener, Rhagfyr 1af

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Rhagfyr 3ydd

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gareth Edwards. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:00 ac Ysgol Sul yn Llannefydd am 10:30 i baratoi at y Gwasanaeth Nadolig.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job.

Dydd Mawrth, Rhagfyr 5ed

- **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn Festri Llansannan am 7:00. Bydd Llywydd y Cwrdd Chwarter, Mr Rhys Dafis, yn dweud gair ac yna'n cyflwyno yr awenau i'w olynydd, Mr Tegfryn Lewis Jones. Yna, fe weinyddir y cymun gan y Parch Graham Floyd.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghapel Henllan am 7:30 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Mercher, Rhagfyr 6ed

- **Paned a Sgwrs Llansannan** – Cinio Nadolig yng Nghaffi Cariad, Llanelwy am 12:30.

Dydd Iau, Rhagfyr 7fed

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?

Dydd Sul, Rhagfyr 10fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghapel Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghapel Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Alan Spencer. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:00.
- **Gwasanaeth Carolau Plwyf Llannefydd** yn yr Eglwys am 6:00 yr hwyr. Gwneir casgliad at Gymdeithas y Beibl.



Rhaghysbys

- **Oedfa i'r Fro** bore Sul, Rhagfyr 24ain yng Nghapel Groes am 10:30 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard.
- **Oedfa i'r Fro** bore Sul, Rhagfyr 31ain yng Nghapel Llannefydd am 10:30 o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen.